Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr
Heol Bethel
Cwmtwrch Isaf
Abertawe
SA9 2PT

13/04/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Mawrth 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Dyffryn y Glowyr yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas ag argymhellion o'r arolygiad craidd blaenorol, ynghyd ag un agwedd a gytunwyd gyda'r pennaeth. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Gwella defnydd disgyblion o Gymraeg llafar

- Mae gan arweinwyr weledigaeth glir er mwyn hybu'r iaith Gymraeg a'r ymdeimlad o Gymreictod ymysg disgyblion a chymuned yr ysgol. Maent yn hyrwyddo addysgeg effeithiol ymysg staff, sydd, yn ei dro, yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau llafar Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol.
- Mae staff yn fodelau iaith cadarn. Maent yn defnyddio dulliau addysgu effeithiol, gan holi'r disgyblion yn fedrus. Mae athrawon yn darparu adborth adeiladol sy'n fuddiol i'r disgyblion wrth iddynt ddatblygu eu gwaith. Maent yn canmol y disgyblion am gywiro eu hiaith pan fydd camgymeriadau. Mae'r dull addysgu medrau llafar yn effeithiol ac mae staff yn ei ddefnyddio wrth ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion ymarfer patrymau iaith penodol, gan ymarfer mewn parau a grwpiau bach.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Mae staff yn cydweithio'n bwrpasol i gynnig ystod o brofiadau diwylliannol Cymreig gwerthfawr i ddisgyblion, gan gynnwys cystadlu mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol. Maent yn trefnu ystod o weithgareddau allgyrsiol difyr ac ysgogol lle caiff disgyblion eu hannog i ddatblygu eu medrau llafar Cymraeg yn effeithiol. O fewn sesiynau ffurfiol ac anffurfiol, mae disgyblion gan amlaf yn defnyddio'r Gymraeg yn gynyddol hyderus.
- Mae'r amgylchedd dysgu ysgogol a chwricwlwm cyfoethog yr ysgol yn hyrwyddo'r Gymraeg yn effeithiol ymysg disgyblion ac yn eu cymell i siarad Cymraeg gyda balchder.
- Mae grwpiau llais y dysgwyr yn annog eu cyd-ddisgyblion i siarad Cymraeg yn fuddiol, gan ddathlu llwyddiannau a gwobrwyo'r ymdrech i siarad Cymraeg. Mae arweinwyr yn rhoi pwyslais ar sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion weld budd mewn siarad Cymraeg, o fewn a thu hwnt i'r ysgol. Drwy hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos agwedd gadarnhaol at eu dysgu, gan arddel yr iaith yn llwyddiannus.

## Rhannu'r arferion addysgu gorau er mwyn sicrhau cyflymder addas i'r sesiynau dysgu ac ymestyn y cyfleoedd i ddisgyblion wella'u gwaith

- Mae arweinwyr a staff yn cydweithio'n llwyddiannus i ymchwilio, i ddatblygu a rhannu dulliau addysgu effeithiol ar draws yr ysgol. Drwy hyn, maent yn darparu cyfleoedd a phrofiadau dysgu sy'n ymateb i anghenion y disgyblion yn briodol.
- Mae athrawon yn darparu cyfleoedd dysgu ysgogol sy'n herio dysgu'r disgyblion yn fwriadus. Maent yn rhannu amcanion dysgu ac yn esbonio'r gweithgareddau dysgu yn bwrpasol. Mae hyn yn galluogi disgyblion, yn unol â'u cam datblygu, i ddeall disgwyliadau ac i wneud cynnydd cyson dros amser.
- Mae cyflymder y sesiynau dysgu yn effeithiol, a lle bo'n briodol, mae staff yn oedi'r dysgu er mwyn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio ac i ystyried sut gallent herio eu hunain i wella eu gwaith. Mae staff yn defnyddio ystod bwrpasol o ddulliau holi treiddgar sy'n adalw dysgu blaenorol ac yn cadarnhau dealltwriaeth disgyblion yn fuddiol.
- Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn trafod eu dysgu yn hyderus ac yn dangos dealltwriaeth briodol o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i lwyddo. Maent yn ymateb yn dda i adborth athrawon ac yn gwella eu gwaith yn llwyddiannus. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwybod beth yw'r cam nesaf yn eu dysgu.
- Mae dysgu proffesiynol pwrpasol yn cefnogi athrawon i ddatblygu eu gallu i gynnig adborth amserol ac effeithiol. O ganlyniad, mae'r adborth yn adnabod beth mae disgyblion wedi ei wneud yn dda a beth sydd angen ei wella.

- Mae arweinwyr yn monitro effaith yr addysgu a'r adborth yn fwriadus ar ddysgu a chynnydd disgyblion. Drwy hyn, maent yn datblygu cysondeb yn y dulliau addysgu a'r adborth ar draws yr ysgol.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6662152

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol